ATODIAD 1

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

1. Cyfansoddiad

1.1 Yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2011 cytunodd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i sefydlu Pwyllgor Penodiadau er mwyn sicrhau elfen annibynnol i'r broses o benodi ac ail-benodi Cadeirydd a Chyfarwyddwyr y Coleg. Bydd hyn yn galluogi'r Coleg i gydymffurfio ag egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus.

1.2 Cytunwyd ar 8 Mawrth 2018 i fabwysiadu'r enw Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.

2. Cylch Gorchwyl

2.1 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynnal prosesau penodi aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, gan gynnwys y Cadeirydd, ac aelodau pwyllgorau eraill o fewn strwythur llywodraethiant Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.

2.2 Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio safonau llywodraethiant oddi fewn i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, gan gynnwys cytuno cynnwys ac ystyried canlyniadau holiadur blynyddol ar lywodraethiant a pherfformiad a ddosberthir i'r cyfarwyddwyr. Bydd y Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod y cyfarwyddwyr yn gweithredu yn unol ag egwyddorion Nolan sydd i'w gweld yn Atodiad 1.

3. Cyfrifoldebau

Mae'r cyfrifoldebau canlynol wedi eu trosglwyddo i'r Pwyllgor gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr:

3.1 Goruchwylio a chynnal proses benodi cyfarwyddwyr y Coleg, gan gynnwys y Cadeirydd, a chyflwyno argymhellion penodol i'r Bwrdd o ran penodi cyfarwyddwyr. Bwrdd y Cyfarwyddwyr sydd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn â phwy a benodir.

3.2 Bod yn gyfrifol am oruchwylio a chynnal y broses o benodi aelodau i bwyllgorau eraill oddi fewn i strwythur llywodraethiant Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, sef y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ynghyd â'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant ei hun.

3.3 Cytuno gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg y sgiliau sydd eu hangen ar aelodau'r Bwrdd er mwyn gweithredu'n effeithiol a'u gosod allan mewn dogfen gyfarwyddo.

3.4 Cynllunio rhaglen o benodi cyfarwyddwyr sy'n sicrhau fod gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr yr aelodau sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ynghyd â'r cydbwysedd priodol iddo gyflawni ei waith yn effeithiol.

3.5 Goruchwylio cynnal safonau llywodraethiant yng nghyd-destun y Bwrdd a'r pwyllgorau.

3.6 Adolygu'n rheolaidd y prosesau a ddefnyddir er mwyn sicrhau fod gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr yr aelodaeth sydd ei angen arno.

4. Aelodaeth

4.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys tri aelod llawn, gan gynnwys:

- Cadeirydd annibynnol wedi ei benodi gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr;
- Dau aelod allanol wedi eu penodi yn dilyn proses o hysbysebu'n gyhoeddus, neu drwy wahoddiad os nad oes modd penodi yn dilyn hysbysebu. Bydd yr enwau hyn yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.

4.2 Bydd Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant heblaw pan fo'n trafod materion yn ymwneud â'r gadeiryddiaeth. Gall y Pwyllgor drafod rhai materion heb Gadeirydd y Coleg.

4.3 Gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn fydd y bleidlais derfynol os na all y pwyllgor ddod i benderfyniad cytûn.

5. Tymor Aelodau

5.1 Bydd tymor aelodau'r Pwyllgor yn bedair blynedd fel arfer, gyda'r posibilrwydd o ail-benodi am gyfnod pellach o bedair blynedd.

6. Cworwm

6.1 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor yw dau aelod, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor, ac un o'r aelodau allanol.

7. Y Cadeirydd

7.1 Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol, yn ôl yr angen, am ddarparu adroddiadau i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, gan fynychu rhan o gyfarfod y Bwrdd i gyflwyno adroddiad ar waith y Pwyllgor o leiaf unwaith y flwyddyn.

7.2 Penodir Cadeirydd y Pwyllgor hwn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn dilyn trafodaeth agored mewn cyfarfod o'r Bwrdd.

8. Awdurdod

8.1 Awdurdodir y Pwyllgor gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i ymwneud yn eu cyfanrwydd â'r holl faterion sydd wedi eu dirprwyo iddo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Fe'i hawdurdodir yn ogystal i archwilio unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl.

9. Arfarnu Perfformiad y Cyfarwyddwyr

9.1 Cyflwynir adroddiad ar berfformiad y cyfarwyddwyr at sylw'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant yn flynyddol gan Ysgrifennydd y Coleg. Yn sgil trafodaeth, mater i'r Pwyllgor hwn yw a oes angen delio ag unrhyw fater perthnasol neu gryfhau rhai o'r gofynion o ran llywodraethiant.

9.2 Bydd y Pwyllgor hwn hefyd yn medru:

- cynnal ymchwiliadau yn unol â gofynion y Bwrdd;
- ymwneud ag unrhyw fater sy'n ymwneud â llywodraethiant;
- bod yn rhagweithiol pan fo materion sy'n berthnasol i lywodraethiant yn dod i'r amlwg neu lle y tynnir eu sylw atynt.

10. Nifer Cyfarfodydd

10.1 Cynhelir o leiaf un cyfarfod y flwyddyn.

11. Ysgrifenyddiaeth

11.1 Bydd aelod o staff cyflogedig y Coleg (Ysgrifennydd y Coleg fel arfer) yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor.

12. Adolygu Cylch Gorchwyl

12.1 Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn gan y Pwyllgor a gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn flynyddol.

ATODIAD 2

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

1. Cyfansoddiad

1.1 Sefydlwyd Pwyllgor y Coleg a adwaenir fel y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol gyda'r Cylch Gorchwyl a'r rheolau sefydlog canlynol drwy benderfyniad y Coleg dyddiedig 22 Tachwedd 2017.

2. Cylch Gorchwyl

2.1 Bydd y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth, monitro cynnydd, cyflwyno barn, sefydlu ac adolygu polisïau ynghyd ag adrodd a gwneud argymhellion perthnasol i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â chyllid, cynllunio ariannol, polisïau adnoddau dynol a materion eraill yn ymwneud â chyflogaeth staff, marchnata a chyfathrebu, a gwasanaethau gwybodaeth a systemau, yn cynnwys adolygu a derbyn gwybodaeth am bolisïau perthnasol.

3. Cyllid

3.1 Derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynllunio cyllidebol tymor canolig a hir gan gynnwys ffynonellau incwm, adolygu'r Rheoliadau Ariannol, adolygu Polisi Buddsoddiadau'r Coleg, monitro perfformiad buddsoddiadau'r Coleg, arfarnu grantiau, a chynnig cyngor ar unrhyw faterion eraill a gyfeirir at y Pwyllgor gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr neu'r swyddogion am arweiniad.

4. Adnoddau Dynol

4.1 Adolygu a derbyn gwybodaeth rheolaidd am bolisïau a materion eraill yn ymwneud â chyflogaeth staff. Derbyn adroddiad adnoddau dynol blynyddol.

4.2 Bod yn gyfrifol am drefniadau ar gyfer adolygu cyflog y Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr.

5. Iechyd a Diogelwch

5.1 Adolygu a derbyn gwybodaeth am y polisi Iechyd a Diogelwch. Derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a rhoi cyngor ar faterion perthnasol i weithgareddau'r Coleg ym maes iechyd a diogelwch.

6. Marchnata a Chyfathrebu

6.1 Adolygu strategaethau yn perthyn i farchnata a chyfathrebu yn cynnwys y Strategaeth Farchnata. Derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a rhoi cyngor ar faterion perthnasol i weithgareddau'r Coleg ym maes marchnata a chyfathrebu.

7. Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau

7.1 Derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a chynnig cyngor ar faterion perthnasol i weithgareddau'r Coleg ym maes gwybodaeth a systemau. Ystyried ac adolygu strategaethau perthnasol i'r meysydd hyn gan gynnwys Polisi Diogelu Data a gofynion deddfwriaethol eraill yn y maes.

8. Aelodaeth

8.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys:

- Cadeirydd, a fydd fel arfer yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg;
- Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg (ex officio);
- Cynrychiolaeth o hyd at dri o aelodau eraill a benodwyd o blith aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg;
- Aelodau annibynnol o hyd at dri na fyddant yn aelodau o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Byddant yn cael eu penodi drwy broses a oruchwylir gan y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.

8.2 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor yw tri aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

8.3 Bydd y Prif Weithredwr a swyddogion eraill yn mynychu yn ôl y gofyn.

9. Awdurdod

9.1 Awdurdodir y Pwyllgor gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i ymwneud â'r holl faterion sydd wedi eu dirprwyo iddo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

10. Nifer Cyfarfodydd

10.1 Cynhelir o leiaf tri chyfarfod y flwyddyn.

11. Ysgrifenyddiaeth

11.1 Darperir ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor gan aelod o staff cyflogedig y Coleg.

12. Adolygu Cylch Gorchwyl

12.1 Adolygir cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn gan y Pwyllgor a gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn flynyddol.

ATODIAD 3

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg

1. Cyfansoddiad

1.1 Sefydlwyd Pwyllgor y Coleg a adwaenir fel y Pwyllgor Archwilio a Risg (y Pwyllgor) gyda Chylch Gorchwyl a rheolau sefydlog drwy benderfyniad y Coleg dyddiedig 30 Mawrth 2011. Adolygwyd y Cylch Gorchwyl a'r rheolau sefydlog ym mis Tachwedd 2017 ac ym mis Hydref 2019.

2. Cylch Gorchwyl

2.1 Mae'r Pwyllgor yn cynghori ac yn cefnogi Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg a'r swyddogion drwy roi sicrwydd annibynnol iddynt ynglŷn ag effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg y Coleg.

3. Cyfrifoldebau

3.1 Mae'r cyfrifoldebau canlynol wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg:

- Adolygu digonolrwydd y strwythurau, prosesau a chyfrifoldebau a gaiff eu mabwysiadu gan reolwyr y Coleg ar gyfer canfod a rheoli risgiau allweddol sy'n wynebu'r Coleg. Bydd hyn yn cynnwys adolygu cofrestr risg y Coleg yn rheolaidd;
- Cynnig barn ffurfiol i'r Coleg ar y cyfrifon archwiliedig, gan gynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, cyn iddynt gael eu cymeradwyo;
- Adolygu Polisïau eraill perthnasol i'r Pwyllgor, er enghraifft Polisi Risg a Pholisi Chwythu'r Chwiban;
- Ystyried digonolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol;
- Paratoi a chymeradwyo adroddiad blynyddol i'r Bwrdd, i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Corfforedig;
- Derbyn adroddiad blynyddol ar sefyllfa yswiriant y Coleg, a'i adolygu yn ôl yr angen;
- Goruchwylio'r trefniadau ar gyfer penodiad archwilwyr mewnol ac allanol;
- Monitro perfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol;
- Comisiynu ymchwiliadau arbennig i faterion mewn perthynas â rheolaeth fewnol yn ôl yr angen.

<u>Archwilwyr Allanol</u>

- Derbyn cyngor gan yr archwilwyr allanol;

- Trafod gyda'r archwilwyr allanol, cyn yr archwiliad, natur a chwmpas yr archwiliad a cheisio sicrhau cydlyniad rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol;
- Ystyried llythyr rheoli'r archwilwyr allanol;
- Sicrhau bod argymhellion yr archwilwyr allanol yn cael eu gweithredu a'u hadrodd i'r Bwrdd.

Archwilwyr Mewnol

- Ystyried a chynghori'r Coleg ar y rhaglen archwilio fewnol flynyddol a thymor hir, a derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol;
- Dysgu o swyddogaeth archwilio mewnol am unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, a chynghori ar hynny;
- Derbyn adroddiadau sicrwydd gan gynnwys canfyddiadau archwilio mewnol;
- Sicrhau bod argymhellion yr archwilwyr mewnol yn cael eu gweithredu a'u hadrodd i'r Bwrdd.

4. Aelodaeth

4.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys:

- Cadeirydd, a fydd fel arfer yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg;
- Dim mwy na 3 aelod a benodwyd o blith aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg;
- Hyd at 3 aelod arall na fyddant yn aelodau o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Byddant yn cael eu penodi drwy broses a oruchwylir gan y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.

4.2 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor yw tri aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

5. Y Cadeirydd

5.1 Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am ddarparu adroddiad llawn a rheolaidd am drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg. Yn absenoldeb y Cadeirydd disgwylir iddynt ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i aelod arall o'r Pwyllgor.

6. Awdurdod

6.1 Awdurdodir y Pwyllgor gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i ymwneud â'r holl faterion sydd wedi eu dirprwyo iddo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Fe'i hawdurdodir yn ogystal i archwilio unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl.

7. Nifer Cyfarfodydd

7.1 Cynhelir o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn.

8. Ysgrifenyddiaeth

8.1 Darperir ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor gan aelod o staff cyflogedig y Coleg.

9. Adolygu Cylch Gorchwyl

9.1 Adolygir cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn gan y Pwyllgor a gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn flynyddol.

ATODIAD 4

Cylch Gorchwyl y Bwrdd Academaidd

1. Cyfansoddiad

Yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2011 cytunodd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i sefydlu Bwrdd Academaidd. Adolygwyd y cyfansoddiad yn Chwefror 2018 yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg. Bydd y Bwrdd Academaidd yn parhau i oruchwylio a chynghori ar weithgareddau'r Coleg yn y sector addysg uwch.

2. Cyfrifoldebau

- Sicrhau bod llais y gymuned academaidd yn cael ei adlewyrchu yn natblygiad cynlluniau academaidd y Coleg, gan gynnwys addysg uwch mewn addysg bellach;
- Sicrhau cynrychiolaeth uniongyrchol o'r canghennau addysg uwch, ac o gymunedau pynciol / disgyblaethol o fewn trefniadaeth y Coleg;
- Sicrhau cynrychiolaeth a mewnbwn gan fyfyrwyr i brosesau cynllunio academaidd y Coleg;
- Derbyn adroddiadau gan y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi.

3. Amcanion

- Sicrhau cyflawni nodau Cynllun Strategol y Coleg drwy gynnal swyddogaeth sefydlog a pharhaol mewn perthynas â chynllunio academaidd y Coleg yn y sector addysg uwch, gan gynnwys y Cynllun Academaidd, y cynlluniau pwnc unigol, ymchwil ac addysgu;
- Arwain y broses o oruchwylio cynnydd yn erbyn targedau a fydd wedi eu nodi yn y cynlluniau academaidd, a goruchwylio'r broses o adolygu'r cynlluniau'n ffurfiol yn ôl y galw;
- Ystyried materion a gyfeirir ato gan y canghennau, y Bwrdd Cyfarwyddwyr, myfyrwyr neu swyddogion y Coleg;
- Cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar ddatblygiadau pynciol, cynlluniau staffio, ac unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â gwaith cynllunio academaidd y Coleg;
- Sicrhau bod cynlluniau academaidd cenedlaethol y Coleg yn cael eu rhaeadru o fewn sefydliadau unigol, a bod y canghennau yn derbyn adroddiadau rheolaidd drwy eu cynrychiolwyr ar y Bwrdd Academaidd;

- Yn dilyn ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg, cynnal perthynas agos gyda'r sector ôl-16, gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â darpariaeth sy'n pontio'r ddwy sector;
- Ceisio, ac ystyried safbwyntiau rhan-ddeiliaid perthnasol a gwaith ymchwil priodol, a chynnwys cyngor arbenigwyr annibynnol pan fo hynny'n briodol.

4. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Bwrdd Academaidd, a all fod hyd 40, yn cynnwys:

Cadeirydd: Y Deon (sef y Cyfarwyddwr sy'n cynrychioli staff academaidd ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Is Gadeirydd: I'w benodi gan y Bwrdd o blith ei aelodau

I'w penodi gan y sefydliadau addysg uwch:

- Un aelod o bob sefydliad addysg uwch, sef cadeirydd y gangen fel arfer. (Disgwylir i'r sefydliadau enwebu dirprwy pan na fydd y cynrychiolydd yn medru bod yn bresennol).

I'w penodi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

- Aelodau annibynnol (hyd at 15) i'w penodi o gymuned darlithwyr cysylltiol y Coleg yn y prifysgolion, gan adlewyrchu amrediad o feysydd pwnc;
- Hyd at dri aelod o sefydliadau addysg bellach.

I'w hethol:

- Un cynrychiolydd myfyrwyr o bob sefydliad addysg uwch. Etholir y cynrychiolwyr yn unol â threfniadau a gytunwyd gyda'r corff myfyrwyr. Gall y trefniadau amrywio o dro i dro yn amodol ar gytundeb y Bwrdd Academaidd.

Ex-officio:

- Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg
- Cadeirydd Bwrdd Strategol Ôl-16
- Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi
- Swyddog Iaith Gymraeg UCMC

5. Cworwm

Bydd y Cworwm ar gyfer cynnal cyfarfod yn cynnwys o leiaf ddeg aelod gan gynnwys y Cadeirydd, neu'r Is-Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd.

6. Atebolrwydd a Threfniadau Adrodd

Mae'r Bwrdd yn bwyllgor sefydlog o'r Coleg. Bydd ganddo'r hawl i wneud penderfyniadau ar unrhyw faterion a ddirprwyir iddo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

Disgwylir i gynrychiolwyr o'r canghennau gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Gangen ac i sicrhau bod materion perthnasol sydd yn cael eu codi mewn cyfarfodydd cangen yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Academaidd.

7. Awdurdod

Bydd y Bwrdd Academaidd yn:

(i) sefydlu is-bwyllgorau eraill neu grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl yr angen;

(ii) goruchwylio'r rhwydwaith paneli pwnc sydd yn rhan o drefniadaeth cynllunio academaidd y Coleg;

(iii) galw, fel y gwêl yn briodol, gyfarfod cyffredinol, agored i holl aelodau'r canghennau, yr holl staff a'r holl fyfyrwyr sydd yn aelodau o'r Coleg.

8. Cyfarfodydd

Cynhelir o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn academaidd. Gellir galw cyfarfodydd neilltuol ar gais hanner neu fwy o'r aelodau. Cymraeg fydd iaith cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd.

9. Ysgrifenyddiaeth

Darperir ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd Academaidd gan swyddog cyflogedig o'r Coleg.

10. Adolygu Cylch Gorchwyl

Adolygir y cylch gorchwyl yn flynyddol gan y Bwrdd Academaidd, gan gyflwyno argymhellion am newidiadau o sylwedd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.

ATODIAD 5

Cylch Gorchwyl y Bwrdd Strategol Ôl-16

1. Cyflwyniad

Yn ei gyfarfod ar 25 Mehefin 2019 cytunodd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i sefydlu Bwrdd Strategol Ôl-16.

2. Cyfrifoldebau

- Sicrhau bod llais y sector ôl-16 yn cael ei adlewyrchu yng ngwaith cynllunio ôl-16 y Coleg;
- Sicrhau cynrychiolaeth uniongyrchol o'r sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr yn nhrefniadaeth y Coleg;
- Sicrhau cynrychiolaeth a mewnbwn gan ddysgwyr i brosesau cynllunio addysg ôl-16 y Coleg;
- Derbyn adroddiadau ar brosiectau gan Swyddogion y Coleg, Grwpiau a Phwyllgorau perthnasol.

3. Amcanion

- Sicrhau cyflawni nodau Cynllun Strategol y Coleg drwy gynnal swyddogaeth sefydlog a pharhaol mewn perthynas â chynllunio yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau gan gynnwys Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau, ac unrhyw gynlluniau unigol a ddatblygir mewn perthynas â chylch y gwaith;
- Arwain y broses o oruchwylio cynnydd yn erbyn targedau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a goruchwylio'r broses o adolygu'r cynlluniau'n ffurfiol yn ôl y galw;
- Cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar ddatblygiadau yn unol â phileri'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau ac unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â gwaith cynllunio ôl-16;
- Cynnig cyngor a barn at sylw swyddogion cyflogedig y Coleg;
- Sicrhau bod datblygiadau ym maes cynllunio addysg ôl-16 yn cael eu cyfathrebu'n llawn â'r sectorau;
- Cynnal perthynas agos gyda'r sector Addysg Uwch, gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â darpariaeth sy'n pontio'r ddwy sector;
- Ceisio gwybodaeth a chyngor unigolion annibynnol.

4. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Bwrdd Strategol Ôl-16, yn cynnwys:

Cadeirydd: (Penodir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn dilyn trafodaeth agored mewn cyfarfod o'r Bwrdd). Bydd cyfnod gwasanaethu'r Cadeirydd yn 3 blynedd gyda phosibiliad o benodi am gyfnod pellach o dair blynedd.

Is Gadeirydd: I'w benodi gan y Bwrdd o blith ei aelodau. Bydd yr Is-Gadeirydd yn cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd.

I'w penodi gan y sefydliadau addysg bellach:

- Un aelod o bob sefydliad addysg bellach. Disgwylir i'r sefydliadau enwebu dirprwy pan na fydd y cynrychiolydd yn medru bod yn bresennol). Os ydy'r sefydliad addysg bellach yn ddarparwr prentisiaethau, disgwylir i'r cynrychiolydd drin a thrafod y sector prentisiaethau yn ogystal.

I'w penodi gan ddarparwyr prentisiaethau:

- Un aelod o bob darparwr prentisiaethau. Disgwylir i'r sefydliadau enwebu dirprwy pan na fydd cynrychiolydd yn medru bod yn bresennol). Os ydy'r darparwr prentisiaethau yn sefydliad addysg bellach, disgwylir i'r cynrychiolydd drin a thrafod y sector addysg bellach yn ogystal.

I'w penodi gan y Coleg/Bwrdd Strategol:

- Gall y Coleg neu'r Bwrdd Strategol benodi aelodau perthnasol ychwanegol yn unol â gofynion y Cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg. Sicrheir drwy hyn gynrychiolaeth gan gyflogwyr a chyrff cynllunio perthnasol eraill.

Llais y Dysgwr:

- Llywydd etholedig UCM Cymru.

Sylwedyddion:

- Gellir gwahodd sylwedyddion i'r cyfarfod ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

5. Cworwm

Bydd y Cworwm ar gyfer cynnal cyfarfod yn cynnwys o leiaf ddeg aelod gan gynnwys y Cadeirydd, neu'r Is-Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd.

6. Atebolrwydd a Threfniadau Adrodd

Mae'r Bwrdd yn bwyllgor sefydlog o'r Coleg. Bydd ganddo'r hawl i wneud penderfyniadau ar unrhyw faterion a ddirprwyir iddo mewn perthynas â'r Cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg, gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

Disgwylir i gynrychiolwyr o'r sefydliadau addysg bellach a/neu ddarparwyr prentisiaethau gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf priodol y sefydliad ac i sicrhau bod materion perthnasol sydd yn cael eu codi mewn cyfarfodydd cangen yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Ôl-16.

7. Awdurdod

Bydd y Bwrdd Strategol Ôl-16 yn:

(i) derbyn adroddiadau am ei waith ac yn monitro ei rôl a'i gyfrifoldebau yn ôl yr angen;

(ii) goruchwylio unrhyw fframwaith trefniadol a ddatblygir i gynllunio darpariaeth Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle.

8. Cyfarfodydd

Cynhelir o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn academaidd. Gellir galw cyfarfodydd neilltuol yn ôl yr angen. Cymraeg fydd prif iaith cyfarfodydd y Bwrdd Strategol Ôl-16 yn unol â chymal 52, Memorandwm Cymdeithasu y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a threfnir cyfieithu ar y pryd pan fo angen.

9. Ysgrifenyddiaeth

Darperir ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd Strategol Ôl-16 gan swyddog cyflogedig o'r Coleg.

10. Adolygu Cylch Gorchwyl

Adolygir y cylch gorchwyl yn flynyddol yn ei gyfarfod yn nhymor yr Hydref yn y Bwrdd Strategol Ôl-16, gan gyflwyno argymhellion am newidiadau o sylwedd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.